# Cyfleusterau Hamdden / Leisure facilities

## ***Coronavirus***

Annwyl Aelod Ffit Conwy

Rydym eisiau tawelu eich meddwl ein bod yn cymryd y rhagofalon sydd angen i atal lledaenu COVID-19 (Coronafirws). Byddwn yn parhau â phob gweithdrefn lanhau dwys arferol ac rydym wedi ychwanegu rhagor o lanweithydd dwylo a chwistrellau diheintio yn ein canolfannau hamdden.

Yn ychwanegol at y mesurau hyn, byddwn yn gwneud rhai addasiadau yn ein canolfannau hamdden.

Dyma beth sydd yn newid:

- Gostyngwyd maint y dosbarthiadau o 50% o 23 Mawrth nes yr hysbysir yn wahanol
- Rydym yn ystyried y posibilrwydd o gynnal rhai dosbarthiadau yn yr awyr agored
- Bydd unrhyw ffioedd archebu sydd heb eu cyflawni yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu dileu
- Symud / lleihau offer ymarfer corff mewn dosbarthiadau ymarfer corff lle bo modd

Mae iechyd a lles ein cwsmeriaid yn hollbwysig. Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, rydym yn cynghori'r rhai hynny sydd â risg uwch o salwch difrifol yn sgil Coronafirws i ddilyn mesurau ymbellhau cymdeithasol.

Rydym yn gwerthfawrogi na fydd rhai o'n haelodau yn medru cael mynediad at ein cyfleusterau yn ystod y cyfnod hwn. I aelodau sy'n talu'n fisol, rydym yn cynnig y dewis o rewi'r taliad aelodaeth ar gyfer mis Ebrill. Bydd aelodau sy'n rhewi eu taliadau yn aros ar yr un cynllun prisio pan fydd y taliadau'n ailgychwyn. I aelodau sydd wedi talu ymlaen llaw am aelodaeth, byddwn yn barod i ymestyn y dyddiad terfynu ar eich cyfer chi. Os hoffech chi i ni weithredu un o'r opsiynau hyn, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at hamdden.leisure@conwy.gov.uk neu siarad ag un o'r staff.

Mae aros yn ffit ac yn egnïol yn ffordd wych o fagu system imiwnedd gadarn a chadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol. Os na fyddwch chi'n gallu dod i'n canolfannau hamdden oherwydd y Coronafirws, byddem yn falch o gynnig opsiwn digidol am ddim i ddal ati i ymarfer corff adref. Os hoffech chi gael mynediad at 95 o ddosbarthiadau ymarfer corff ar-lein, cysylltwch â ni ar y cyfeiriad e-bost uchod, a byddwn yn anfon y ddolen atoch chi.

Byddwn yn dal i gadw'n agos at gyngor y Llywodraeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac, os bydd unrhyw gyfarwyddyd cenedlaethol yn y dyfodol i gau cyfleusterau neu'r gwasanaeth, byddwn yn cydymffurfio.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar y cyfeiriad e-bost uchod neu siarad ag un o dîm Ffit Conwy.

Diolch yn fawr

Tîm Ffit Conwy